

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Darcy Healthcare, Academi  
Chwaraeon Llandarcy, Castell-nedd

Dyddiad yr arolygiad: 5 Rhagfyr 2024

Dyddiad cyhoeddi: 5 Mawrth 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom.....	5
2. Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym .....	9
Ansawdd Profiad y Claf .....	9
Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol.....	12
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	19
4. Y camau nesaf .....	21
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	22
Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith.....	23
Atodiad C - Cynllun gwella.....	24

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Darcy Healthcare, Academi Chwaraeon Llandarcy, Castell-nedd ar 5 Rhagfyr 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC a dau adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Ni chwblhawyd unrhyw holiaduron gan gleifion na'u gofalwyr ac ni chwblhawyd unrhyw holiaduron gan y staff.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd bod y rheolwr cofrestredig a'r staff yn y clinig yn gweithio i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion. Roedd y clinig yn sicrhau y gallai pobl sydd â phroblemau symudedd gael mynediad hwylus i'r gwasanaeth, a oedd yn cynnwys cyfleusterau ystafell ymolchi addas ar gyfer cleifion â gofynion mynediad symudedd. At hynny, roedd staff y clinig wedi ymgymryd â hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Roedd prosesau addas ar waith yn y lleoliad i'r cleifion roi adborth am eu profiadau o ddefnyddio'r gwasanaeth cyn ac ar ôl cael triniaeth. Fodd bynnag, gwnaethom nodi y gellid gwneud mwy i roi gwybod i'r cleifion am y camau a gymerwyd gan y gwasanaeth o ganlyniad i'w hadborth.

Gellid arddangos mwy o wybodaeth er mwyn helpu'r cleifion i ofalu am eu hiechyd cyffredinol eu hunain. Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a oedd i'w gweld yn Saesneg.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Arddangos adborth i gleifion fel bwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni
- Rhoi mwy o wybodaeth hybu iechyd am sut y gall cleifion cynnal eu hiechyd cyffredinol
- Sicrhau bod yr holl wybodaeth i gleifion ar gael yn hawdd ac yn cael ei darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd trefniadau da ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal urddasol a pharchus drwy gydol eu triniaeth.
- Dywedodd y staff eu bod yn cael digon o amser i ddarparu gofal effeithiol a diogel i'r cleifion
- Roedd polisi cwynion ar gael a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd trefniadau addas ar waith yn y gwasanaeth i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd y trefniadau hyn wedi'u hategu gan amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol a pherthnasol.

Roedd amgylchedd y clinig mewn cyflwr da ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg. Roedd prosesau atal a rheoli heintiau ar waith yn y lleoliad. Fodd bynnag, roedd rhai meysydd y gellid eu gwella. Er enghraifft, defnyddio weips Tristel Trio a'r ddogfennaeth ar flychau offer miniog.

Roedd y clinig yn cynnwys y cyfarpar a'r dyfeisiau meddygol cywir i ddiwallu anghenion y cleifion. Roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw mewn modd amserol. Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu storio'n gywir ac roedd y stoc yn briodol ar gyfer y triniaethau roedd y gwasanaeth yn eu cynnal.

Gwelsom fod cofnodion meddygol yn cael eu cadw'n dda ac roeddent yn hawdd eu deall. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd gwybodaeth am hebryngwyr ac alergeddau bob amser yn cael ei chofnodi.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod yr asesiadau risg a'r asesiadau peryglon amgylcheddol perthnasol a gaiff eu cwblhau gan yr academi ar gael i'r practis
- Trefniadau atal a rheoli heintiau yn y clinig
- Y broses o gofnodi gwybodaeth am hebryngwyr ar gofnodion meddygol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd croesawgar a glân i'r cleifion
- Roedd y broses o reoli meddyginiaethau yn drylwyr ac roeddent yn cael eu storio'n briodol
- Roedd y cofnodion meddygol yn drefnus, yn cael eu cadw'n ddiogel ac roeddent yn hawdd eu deall.

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth y clinig yn glir ac yn strwythuredig. Roedd y rheolwr cofrestredig yn canolbwyntio ar y cleifion ac yn meddu ar wybodaeth a sgiliau priodol i ddarparu triniaethau diogel i'r cleifion.

Roedd y lefelau staffio yn briodol i sicrhau diogelwch y cleifion. Roedd arfarniadau staff wedi cael eu cwblhau ac roedd cynllun ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn briodol. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol.

Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith yn y clinig, ac roeddent yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd trefniadau llywodraethu cadarn ar waith
- Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn dangos bod y staff wedi cael amrywiaeth o hyfforddiant
- Polisiau a gweithdrefnau cyfredol.



## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Diogelu a gwella iechyd

Roedd deunydd hybu iechyd i'w weld yn y clinig yn sôn am ddulliau cynhesu'r corff ac oeri'r corff wrth wneud ymarfer corff a rhoi'r gorau i smygu. Fodd bynnag, roedd angen arwyddion ychwanegol o ran sut y gall cleifion ofalu am eu hiechyd cyffredinol eu hunain, gan gynnwys colli pwysau a chynnal ffordd iach o fyw. Yn ogystal, nid oedd y tystysgrifau a oedd yn dangos bod y clinig wedi'i gofrestru ag AGIC wedi'u harddangos fel sy'n ofynnol. Dywedwyd wrthym mai'r rheswm dros hyn oedd fod gwaith adnewyddu wedi cael ei gynnal yn y clinig yn ddiweddar.

#### Rhaid i'r clinig sicrhau'r canlynol:

- **Bod gwybodaeth hybu iechyd ychwanegol wedi'i harddangos yn y clinig gan gynnwys gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw a rheoli pwysau**
- **Bod y tystysgrifau cofrestru a ddarperir gan AGIC i'w gweld yn amlwg yn y clinig**

#### Urddas a pharch

Nid oedd unrhyw gleifion yn y clinig yn ystod ein harolygiad. Nodwyd gennym fod trefniadau da ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal urddasol a pharchus drwy gydol eu triniaeth. Roedd yr ystafell aros a'r ystafelloedd trin yn cynnig lefel briodol o breifatrwydd i'r cleifion. Roedd drysau y gellid eu cloi ac roedd bleinds ar ffenestri'r ystafelloedd trin. Gwelsom fod yr ystafelloedd yn daclus ac nad oedd unrhyw annibendod.

#### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd gwybodaeth ar y wefan am yr amrywiol fathau o sganiau. Roedd y clinig yn rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol i'r cleifion cyn eu hymweliad, gan gynnwys unrhyw gyfarwyddiadau arbennig roedd eu hangen er mwyn paratoi ar gyfer y sgan penodol.

Byddai'r cleifion yn cael esboniad o fanteision a risgiau'r sgan cyn ei gynnal. Byddai'r claf yn cael sgan yn gyntaf, wedi'i ddilyn gan bigiad cyfeiriedig. Ar ôl y pigiad, byddai'r claf yn cael ei gadw yn y clinig am 15 munud rhag ofn y byddai'n cael adwaith. Roedd cleifion hefyd yn gorfod cadw dyddiadur poen er mwyn iddynt allu cofnodi eu hymateb i'r pigiad. Ni fyddai'r cleifion fel arfer yn cael copi o'u

hadroddiad yn syth ar ôl y sgan. Byddai'n cael ei anfon drwy e-bost yn ôl at yr atgyfeiriwr neu at feddyg teulu'r claf pe bai'r claf hwnnw wedi hunan-atgyfeirio.

Gallai cleifion ofyn am gopi o'u hadroddiad a gweld delweddau o'u sgan drwy ddolen i wefan a fyddai'n weithredol am gyfnod penodol o amser pe byddent yn gofyn am gael gwneud hynny.

Nid oedd unrhyw aelod o staff yn siarad Cymraeg yn y clinig ac nid oedd fawr ddim arwyddion Cymraeg.

**Dylai'r clinig sicrhau bod yr holl wybodaeth i gleifion ar gael yn hawdd ac yn cael ei darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn. Dylai cleifion gael cynnig y cyfle i siarad yn eu dewis iaith lle bynnag y bo modd.**

### **Cynllunio a darparu gofal**

Byddai gofynion ac anghenion penodol cleifion yn cael eu nodi yn ystod y broses trefnu apwyntiad dros y ffôn neu drwy'r llythyr atgyfeirio cychwynnol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gymhorthion na darpariaethau ychwanegol ar waith ar gyfer unrhyw anabledau penodol, heblaw am doiledau hygyrch.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael digon o amser i ddarparu gofal effeithiol a diogel i'r cleifion a bod nifer y staff yn briodol i ddiwallu anghenion y cleifion. Roeddent yn gwybod ble roedd y polisiâu a'r gweithdrefnau clinigol perthnasol yn cael eu cadw ac yn gallu eu gweld ar yriant a rennir y clinig.

Dywedwyd wrthym fod apwyntiadau yn cael eu trefnu'n seiliedig ar y staff a oedd ar gael a gofynion cleifion. Roedd y slot amser i'r cleifion yn cael ei drefnu gan ddibynnu faint o amser oedd ei angen ar gyfer y driniaeth. Y radiolegydd fyddai'n penderfynu ar hyd yr apwyntiad. Byddai cleifion yn yr ystafell aros yn cael gwybod pe byddai unrhyw oedi o ran cael y driniaeth, ond ni fu unrhyw broblemau o'r fath hyd yn hyn.

Roedd y cynorthwydd gofal iechyd yn cadarnhau manylion adnabod y claf ac wedyn yn mynd â'r claf i weld y radiolegydd a fyddai'n cynnal y gwiriad adnabod chwe phwynt ac yn cael cydsyniad llafar neu ysgrifenedig y claf gan ddibynnu ar ba driniaeth y byddai ei hangen er mwyn cyflawni'r archwiliad. Byddai'r radiolegydd yn rhoi adborth cyfyngedig i'r claf yn dilyn y sgan. Byddai'r adroddiad llawn ar y driniaeth yn cael ei anfon drwy e-bost at yr atgyfeiriwr.

### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Roedd polisiâu ar waith gan y gwasanaeth er mwyn helpu i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth y cleifion. Roedd mynediad gwastad i'r clinig ac roedd y drysau yn addas i gadeiriau olwyn. Roedd yr ystafelloedd trin yn fawr ac wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod, gyda drysau llydan. Roedd toiled hygyrch ar gael i'r clinig ei

ddefnyddio ar y llawr gwaelod ger y fynedfa. Fodd bynnag, nid oedd y toiled hygyrch yn ystafelloedd newid dynion yr academi ar gael i'w ddefnyddio ar adeg yr arolygiad.

Dyweddodd yr uwch-aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw fod y staff yn grŵp amrywiol. Dywedwyd wrthym fod y staff yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth a phwysigrwydd deall sut yr hoffai pobl gael eu trin. Dywedodd yr uwch-aelodau o staff hefyd er nad oeddent wedi darparu triniaeth i gleifion trawsryweddol ar adeg yr arolygiad, y byddai unrhyw driniaeth a fyddai'n cael ei rhoi yn parchu eu hawliau a'u dewisiadau personol.

### **Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Roedd y practis yn cadw cofnod o negeseuon e-bost gan gleifion yn datgan eu barn am y gwasanaeth, boed yn gadarnhaol neu'n llai cadarnhaol, mewn dogfen Word. Nid oedd gwybodaeth wedi'i harddangos yn y clinig yn nodi sut y gallai cleifion gwyno, ond roedd cod ymateb cyflym (QR) i gleifion roi adborth. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ganlyniadau ar gael o'r adborth hwn.

**Rhaid i'r clinig sicrhau bod gwybodaeth 'dywedoch chi, gwnaethom ni' i'w gweld yn y clinig er mwyn cyflwyno canlyniadau unrhyw adborth a'r camau gweithredu a gymerwyd gan y clinig i'r cleifion.**

Roedd polisi cwynion ar waith gan y clinig a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys yr unigolyn sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion a manylion sefydliadau cymorth ar gyfer codi pryderon. Dywedwyd wrthym na fu unrhyw gwynion ffurfiol am y clinig, ond roedd sylwadau anffurfiol wedi dod i law, a oedd hefyd wedi'u rhestru yn y ddogfen adborth, a oedd yn ymwneud â pharcio ac arwyddion. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth wedi ymdrin â'r materion hynny.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Yr Amgylchedd

Roedd y clinig yn hygyrch ac yn hawdd ei ganfod, gyda chyfleusterau i bobl ag anawsterau symudedd. Roedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, roedd yn lân, roedd digon o le ac roedd mewn cyflwr da, gan gynnwys y dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau. Roedd y clinig yn addas at y diben ac yn addas ar gyfer y ffordd roedd yn cael ei ddefnyddio. Nodwyd gennym fod y clinig yn ddiogel, ac nad oedd unrhyw annibendod na pheryglon baglu.

## Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd y cofnodion ar gyfer y peryglon amgylcheddol, yr asesiadau risg ar gyfer y cyfleusterau, yr asesiadau rheoli risg a'r cyfleusterau cyffredinol yn cael eu rheoli gan dîm rheoli'r academi, a oedd yn lesio'r ystafelloedd trin i'r clinig. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd modd i'r clinig weld y cofnodion hyn, ac nid oedd ganddo fynediad uniongyrchol iddynt, er i ni gael gwybod y gallai ofyn amdanynt. Yn yr un modd, nid oedd y clinig wedi edrych ar bolisiau a phrosesau'r academi fel gwiriadau tân. Fodd bynnag, roedd y wybodaeth hon ar gael pe byddai'r clinig yn gofyn yn benodol amdani. Roedd y cofnodion ar y gofrestr risg ar gyfer y clinig yn cynnwys risgiau lefel uchel fel mwy o alw na chapasiti a phe byddai'r cyfarpar uwchsain neu'r system gwybodaeth radioleg (RIS) neu'r system archifo a chyfathrebu lluniau (PACS) yn methu.

**Rhaid i'r clinig sicrhau y gall gael gafael ar yr asesiadau risg, yr asesiadau peryglon amgylcheddol, a'r polisiau a'r gweithdrefnau perthnasol, gan gynnwys cofnodion ar gyfer gwiriadau tân, a gedwir gan yr academi.**

Roedd bag adfywio a silindr ocsigen ar gael yn y clinig, ac roedd diffibriliwr allanol awtomataidd (AED) ar gael yn nerbynfa'r academi. Mewn argyfwng, byddai staff derbynfa'r academi yn ffonio rheolwyr gweithrediadau eraill yr academi i ofyn am help pe bai argyfwng meddygol a byddai staff y dderbynfa yn ffonio 999 pe bai'r radiologydd yn gofyn iddynt wneud hynny. Roedd y cyfarpar adfywio wedi cael ei wirio unwaith y mis ac roedd tystiolaeth o hyn i'w gweld. Yn ôl canllawiau Cyngor Adfywio'r DU, dylid cynnal y gwiriadau hyn unwaith yr wythnos.

**Rhaid i'r clinig sicrhau bod y cyfarpar adfywio, gan gynnwys y cyffuriau, yn cael eu gwirio unwaith yr wythnos.**

## Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael ac yn cael ei ddefnyddio. Dywedwyd wrthym y byddai'r cyfarpar yn cael ei newid yn briodol rhwng cleifion.

Roedd gorsafoedd golchi dwylo ar gael ym mhob ystafell ymgynghori. Roedd polisi atal a rheoli heintiau perthnasol a chyfredol ar waith.

Roedd pob ystafell yn y clinig yn lân ac yn daclus, ac roedd y lloriau yn briodol. Nid oedd cofnodion o'r amserlen glanhau ar gael yn uniongyrchol i'r clinig i ddangos y trefniadau ar gyfer glanhau'r cyfleusterau. Yr academi oedd yn gyfrifol am drefnu gwaith glanhau, ond nid oedd unrhyw gofnodion yn y clinig nac yn yr academi i ddangos bod gwaith glanhau yn cael ei gynnal, er bod pob ardal yn ymddangos yn lân. Gwelsom fod archwiliad misol yn cael ei gynnal gan y cwmni glanhau a'i fod yn ei anfon i'r academi. Dylai'r academi anfon copi o'r archwiliad hwnnw i'r clinig ar ôl ei dderbyn.

Roedd staff y clinig yn glanhau'r cyfarpar a'r chwiliedyddion, ond oni bai bod triniaeth fewnwithiol yn cael ei chynnal, nid oedd cofnod yn cael ei gadw o'r gwaith i lanhau'r chwiliedydd a'r cyfarpar. Ar gyfer sganiau trawsweiniol, dywedwyd wrthym fod Tristel Trio yn cael ei ddefnyddio i ddihalogi'r chwiliedydd a gwelwyd rhywfaint o dystiolaeth o hyn ar gofnod claf perthnasol a oedd yn cynnig llwybr archwilio rhannol. Roedd system weips Tristel Trio yn cynnig system ddihalogi teiran ar gyfer dyfeisiau meddygol. Roedd yn cynnwys tri weip sydd, yn eu tro, yn cyflawni camau'r weithdrefn ddihalogi. Fodd bynnag, ni welwyd unrhyw ddeunyddiau glanhau Tristel Trio ar y safle, er i ni gael gwybod bod y deunyddiau hyn ar gael. Gallai hyn olygu y byddai sgan yn cael ei drefnu ond na fyddai modd dihalogi'r chwiliedydd yn briodol.

Roedd y clinig yn sganio labeli'r system Tristel Trio i mewn i ddogfen pdf ac yn atodi'r ddogfen hon i gofnod RIS y claf. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cynnig cofnod penodol o ddyddiad ac amser y driniaeth, enw a manylion y claf, enw'r gweithredwr, rhif cyfresol y troswr a ddefnyddiwyd, pwy wnaeth y gwaith glanhau a dihalogi. Roedd gorchuddion chwiliedyddion a gel di-haint yn cael eu defnyddio i lanhau ar ôl y pigladau steroid a'r sganiau. Roedd dyddiad darford y gwneuthurwr wedi'i nodi ar y poteli o gel di-haint ac nid oedd modd eu hail-lenwi. Fodd bynnag, nid oeddent yn dilyn y canllawiau diweddaraf a oedd yn nodi y dylid gosod label yn dangos dyddiad defnyddio neu ddyddiad agor y botel am y tro cyntaf ar y botel unigol ac y dylid cael gwared arni os oedd yn cael ei defnyddio o hyd ar ôl cyfnod o fis.

Roedd dau fin offer miniog ar agor ac yn cael eu defnyddio yn yr ystafell sganio. Roedd un o leiaf ddau draean yn llawn, ond nid oedd unrhyw fanylion wedi cael eu llenwi ar y naill fin offer miniog na'r llall, er enghraifft dyddiad defnyddio'r bin am y tro cyntaf neu fanylion pwy agorodd y bin offer miniog.

Dywedwyd wrthym nad yw'r staff yn holi ynghylch statws heintus unrhyw gleifion ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd ystafell ar gael pe byddai angen ynysu claf.

Wrth siarad â'r rheolwr cofrestredig a'r cynorthwydd gofal iechyd, daeth yn amlwg nad oeddent yn gwybod pwy oedd yn gyfrifol am waredu'r gwastraff clinigol na'r biniau offer miniog.

Rhaid i'r clinig ymgymryd â'r canlynol er mwyn sicrhau bod trefniadau atal a rheoli heintiau effeithiol ar waith yn y clinig:

- Sicrhau y caiff copi o'r archwiliad misol o'r gwaith glanhau a wneir ei roi i'r clinig
- Cadw cofnod o'r prosesau ar gyfer glanhau'r chwiliedydd a'r trefniadau cyffredinol ar gyfer glanhau cyfarpar yn y clinig
- Sicrhau bod stoc o weips Tristel Trio ar gael bob amser
- Sicrhau y caiff y defnydd o weips Tristel Trio ei gofnodi'n gywir, gan gynnwys dyddiad ac amser y driniaeth, enw a manylion y claf, enw'r gweithredwr, rhif cyfresol y troswr a ddefnyddiwyd, pwy wnaeth y gwaith glanhau a dihalogi
- Sicrhau bod y poteli gel a ddefnyddir ar gyfer y gorchuddion chwiliedyddion di-haint ac ar gyfer pigladau steroid a sganiau yn dilyn y canllawiau diweddaraf
- Sicrhau y caiff y wybodaeth ar y biniau offer miniog ei chwblhau pan fydd y bin offer miniog yn dechrau cael ei ddefnyddio
- Sicrhau y caiff cleifion eu holi ynghylch unrhyw glefydau heintus, yn ddelfrydol pan fyddant yn trefnu apwyntiad, ond hefyd pan fyddant yn cyrraedd y clinig
- Sicrhau bod y staff yn ymwybodol o bwy sy'n gyfrifol am waredu gwastraff clinigol a biniau offer miniog.

Gwelsom dystiolaeth fod dyfeisiau miniog mwy diogel yn cael eu defnyddio a bod y staff yn cael hyfforddiant ar sut i gynnal ardal ddi-haint drwy dechnegau digyffwrdd aseptic. Roedd y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol ar atal a rheoli heintiau. Dywedwyd wrthym fod gwasanaeth iechyd galwedigaethol ar gael i'r staff drwy'r academi.

Roedd y cofnodion yn dangos statws imiwneiddio'r staff rhag hepatitis B yn briodol.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Roedd trefniadau ar waith i archebu, cael, storio, rheoli, cyflenwi, rhagnodi, rhoi a gwaredu meddyginiaethau. Roedd yr holl feddyginiaethau a oedd yn cael eu cadw yn y clinig mewn cwpwrdd a oedd wedi'i gloi. Roedd y meddyginiaethau yn cael eu storio mewn cwpwrdd a oedd wedi'i gloi yn un o'r ystafelloedd trin. Nid oedd tymheredd amgylchol yr ystafell yn cael ei gofnodi er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau yn addas at y diben ar yr adeg y byddent yn cael eu rhoi i gleifion.

### **Rhaid i'r clinig sicrhau bod tymereddau amgylchol yr ystafelloedd lle caiff meddyginiaethau eu cadw yn cael eu gwirio a'u cofnodi bob dydd.**

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau cyfredol ar waith a oedd yn cynnwys gwybodaeth am sut i reoli adweithiau andwyol i Gynllun Cerdyn Melyn yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA).

### **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**

Roedd polisi diogelu cyfredol ar waith ar gyfer plant ac oedolion, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau lleol a'u manylion cyswllt perthnasol. Roedd y cyfarwyddwr meddygol yn gweithredu fel yr arweinydd diogelu dynodedig a dywedodd y staff y byddent yn uwchgyfeirio unrhyw bryderon diogelu er mwyn cydlynu unrhyw gamau gweithredu gofynnol.

Dywedodd yr uwch-aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw fod copi o ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru ganddynt ar eu ffôn.

### **Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**

Roedd gan y gwasanaeth y cyfarpar a'r dyfeisiau meddygol cywir i ddiwallu anghenion y cleifion, gan gynnwys peiriant uwchsain, stôl sganio ergonomig a gwely trydanol. Roedd profion diogelwch trydanol wedi cael eu cynnal ar yr holl gyfarpar ym mis Gorffennaf 2024.

Roedd y cyfarpar hwn yn briodol ar gyfer ei ddefnydd bwriadedig a'r amgylchedd lle roedd yn cael ei ddefnyddio. Roedd sinciau â thapiau penelin a chyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn yr ystafelloedd. Roedd y lloriau yn briodol ac yn hawdd eu glanhau er mwyn atal llwch rhag cronni. Roedd modd cloi drysau'r ystafelloedd trin o'r tu mewn pan fyddai archwiliadau cleifion yn cael eu cynnal. Yr academi oedd yn gyfrifol am y trefniadau ar gyfer cynnal a chadw'r cyfarpar ac roedd trefniadau gwasanaethu blynyddol ac yswiriant ar waith pe byddai unrhyw gyfarpar yn torri. Nid oedd staff ar y safle yn cynnal unrhyw brosesau sicrhau ansawdd cyffredinol rhwng yr ymweliadau gwasanaethu. Nid oedd hyd yn oed arolygiadau gweledol o'r chwiliedyddion a'r ceblau wedi'u cofnodi. Roedd profion

sicrhau ansawdd ar gael yn hawdd ar wefan Cymdeithas Uwchsain Meddygol Prydain (BMUS).

Roedd tystiolaeth i ddangos bod y cyfarpar wedi cael ei wasanaethu a'i galibradu yn ddiweddar yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. Roedd y cyfarpar yn cael ei weithredu'n unol â chanllawiau'r gwneuthurwr ac roedd arbenigwr defnydd y gwneuthurwr wedi rhoi hyfforddiant i'r staff ar ddefnyddio'r cyfarpar. Roedd adroddiad cynnal a chadw ataliol cyffredinol gan beiriannydd wedi'i weld, ond ni chwblhawyd ffurflen drosglwyddo rhwng y clinig a'r peiriannydd.

Er na fu unrhyw ddiffygion neu fethiannau ers prynu'r cyfarpar, nid oedd cofnod diffygion ar waith eto i gofnodi digwyddiadau o'r fath pe byddent yn codi.

**Rhaid i'r clinig sicrhau y caiff y camau gweithredu canlynol eu cymryd:**

- **Caiff profion sicrhau ansawdd rheolaidd eu cynnal o'r cyfarpar a chaiff y profion hyn eu dogfennu**
- **Caiff y trefniadau ar gyfer trosglwyddo cyfarpar rhwng y clinig a pheiriannydd yn ystod gwaith cynnal a chadw neu atgyweirio eu dogfennu**
- **Caiff cofnod diffygion ei lunio i nodi'r diffygion a'r camau gweithredu a gymerwyd i ddatrys y mater yn ogystal ag enwau a dyddiadau.**

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd y staff yn ymwybodol o'r canllawiau clinigol sy'n gysylltiedig â'u maes ymarfer, gan fod pob un ohonynt yn feddygon ymgynghorol a oedd wedi'u hachredu gan y GIG. Roedd pob radiolegydd hefyd yn un o gyd-gyfarwyddwyr y clinig.

Cwblhawyd archwiliad o ansawdd y delweddau ar ôl triniaeth claf ar gyfer 2024. Roedd y clinig yn bwriadu cwblhau archwiliadau o'r fath bob chwe mis o 2025 ymlaen. Cynhaliwyd archwiliad o'r gweithdrefnau ar gyfer lleoli pigladau steroid hefyd. Er na chynhaliwyd unrhyw archwiliadau o adroddiadau radioleg, roedd y clinig yn dibynnu ar ganlyniadau archwiliadau adroddiadau GIG y radiolegwyr drwy eu crynodebau arfarnu blynyddol.

Gwelsom hysbysiadau '*paused and checked*' yn yr ystafell uwchsain, sef rhestr wirio i weithredwyr sydd ar fin trin cleifion, er mwyn sicrhau'r claf cywir, yr anatomeg gywir a'r driniaeth gywir. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod gwiriad chwe phwynt yn cael ei gynnal cyn rhoi triniaeth a oedd yn cynnwys cadarnhau manylion adnabod y claf, ei enw, ei ddyddiad geni a'i gyfeiriad, yn ogystal â'r rhan o'r corff, ochredd ac arwyddion neu symptomau clinigol. Roedd y



broses hon ar waith er mwyn sicrhau bod y manylion yn cyd-fynd â'r manylion ar yr atgyfeiriad i gael triniaeth.

Roedd cyfleuster ar waith i drosglwyddo delweddau drwy system ddiogel i gyfleusterau'r GIG er mwyn gallu parhau ag unrhyw driniaethau neu drefniadau rheoli yr oedd eu hangen ar y claf. Hefyd, gellid anfon y delweddau i gyfeiriad e-bost arall os oedd angen edrych ar sganiau neu ddelweddau blaenorol cyn llunio adroddiad uwchsain terfynol.

Yr unig wybodaeth wedi'i sganio a fyddai'n cael ei hanfon at glaf oedd y daflen pigiadau steroid a oedd yn disgrifio'r broses yn ogystal â'r manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r pigiad. Nid oedd proses ffurfiol ar waith ar gyfer asesu neu ddarparu hawliau atgyfeirio i ymarferwyr anfeddygol ac nid oedd rhestr o atgyfeirwyr hysbys ar waith.

### **Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Dywedodd yr uwch-aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw y byddai'r clinig yn dilyn arferion gorau gan Goleg Brenhinol y Radiolegwyr (RCR), y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), y Colegau Brenhinol a hanfodion prosesau uwchsain. Roedd un archwiliad wedi'i gwblhau o bigiadau lleoli uwchsain, gan anelu at wella'r ddelwedd. Dywedwyd wrthym fod y clinig yn ystyried cyflwyno asesiad newydd ar gyfer canser y prostad.

### **Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu**

Roedd yr holl gofnodion clinigol yn cael eu cadw ar system gwmwl RIS a PACS. Roedd hyn yn cynnwys y dogfennau perthnasol fel llythyrau atgyfeirio a ffurflenni cydsynio, a oedd yn cael eu sganio i mewn i gofnod ar-lein y claf ac wedyn yn cael eu gwaredu mewn bin gwastraff cyfrinachol.

Roedd y rhwydwaith delweddu cwmwl yn llwyfan diogel a oedd yn hwyluso'r broses o gyfnewid a rhannu data delweddu diagnostig ymhlith darparwyr gofal iechyd ac yn cynnig systemau y gallai radiolegwyr eu defnyddio gartref yn ogystal ag yn y cyfleuster. Roedd y polisiau a'r gweithdrefnau yn cael eu cadw ar ran o system gyfrifiadurol a oedd ar gael i bawb ei rhannu. Rhaid i'r clinig sicrhau y caiff unrhyw wybodaeth bersonol ei chadw mewn ardal ddiogel.

Roedd tystysgrif Cyber Essentials Plus ar gael ar gyfer system gwmwl RIS a PACS. Roedd cynllun ardystio wedi'i gefnogi gan y diwydiant er mwyn helpu sefydliadau i ddangos eu bod yn cymryd camau diogelu gweithredol yn erbyn seiber-ymosodiadau cyffredin.

### **Rheoli cofnodion**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf a gwelsom eu bod yn gryno ac yn cynnwys yr holl wybodaeth briodol y byddem yn ei disgwyl. Fodd bynnag, nid oedd y cynnig o hebryngwr wedi cael ei gofnodi yn y cofnodion a welsom. Ar gyfer pigiadau, byddai'r radiologydd yn gofyn ar lafar i'r cleifion a oedd ganddynt unrhyw alergeddau, ond ni fyddai'r wybodaeth yn cael ei chofnodi yn yr adroddiad. Roedd cofnodion pob claf yn cael eu cynnal yn electronig, a gwelsom fod trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod y cofnodion hyn yn ddiogel. Roedd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn glir ac yn drefnus ac yn dangos eu bod wedi rhoi cydsyniad dilys. Byddai templed ar gyfer ysgrifennu adroddiadau yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth am hebryngwyr, cydsyniad ac alergeddau yn cael ei chofnodi.

**Rhaid i'r clinig sicrhau y caiff y cynnig o hebryngwr, a roddwyd cydsyniad ac unrhyw alergeddau eu cofnodi bob tro.**

Ar gyfer sganiau mewnwthiol neu drawsweiniol, roedd y staff fel arfer yn gofyn am gydsyniad ysgrifenedig yn unol â'r polisi ac yn cofnodi'r cydsyniad hwnnw yng nghofnod y claf. Ar gyfer pob math arall o sgan, roedd y staff yn gofyn am gydsyniad llafar a byddai hyn yn cael ei gofnodi yn adroddiad y claf.

Roedd atebolrwydd clir a thystiolaeth o sut roedd penderfyniadau yn cael eu gwneud ynghylch gofal cleifion, a oedd o ansawdd da ac yn gywir, yn gyfredol, yn gyflawn, yn ddealladwy ac yn gyfoes. Gallai cleifion weld eu cofnodion ar gais.

Roedd yr adroddiad yn dilyn canllawiau RCR o ran trefn ac eglurder. Yr atgyfeiriwr oedd yn gyfrifol am reoli unrhyw gyflyrau a fyddai'n cael eu canfod yn sgan y claf. Yn achos cleifion a oedd wedi hunan-gyfeirio, byddai'r adroddiad yn cael ei anfon at feddyg teulu'r claf er mwyn cymryd unrhyw gamau pellach neu reoli'r achos. Nid oedd unrhyw broses ar waith ar gyfer sicrhau bod yr atgyfeiriwr neu'r meddyg teulu yn llunio cynllun rheoli priodol ar gyfer y claf o ganlyniad i ganfyddiadau unrhyw sgan. Lle byddai canfyddiadau annisgwyl o bwys yn dod i'r amlwg yr oedd angen iddynt gael sylw a threfniadau rheoli ar unwaith neu ar frys, byddai'r clinig yn ffonio'r atgyfeiriwr ac yn trafod yr adroddiad â'r unigolyn hwnnw neu â meddyg teulu'r claf lle roedd y claf wedi hunan-gyfeirio.

Roedd y cofnodion o ansawdd da ac yn gywir, yn gyfredol, yn gyflawn, yn ddealladwy ac yn gyfoes.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd strwythur rheoli clir ar waith a dangoswyd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir. Roedd y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol yn gweithio yn y clinig ac ar gael i gefnogi'r staff ac i fonitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.

Roedd y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion yn cael eu hadolygu ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol a oedd yn ofynnol gan reoliad 6 a 7 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Byddai copïau papur yn cael eu hargraffu ar gais i'r cleifion fynd â nhw fel y bo angen. Cawsom wybod y gallai cleifion gael copïau ohonynt drwy e-bost cyn eu triniaeth.

Roedd trefniadau llywodraethu ar waith gan gynnwys siart sefydliadol, cyfarfodydd llywodraethu clinigol â'r staff delweddu atseiniol magnetig (MRI) (sydd wedi'u cofrestru ar wahân) a staff uwchsain. Roedd cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal bob mis ac roedd rhai archwiliadau hefyd wedi'u cynnal. Roedd hysbysiadau diogelwch gan MHRA a Llywodraeth Cymru yn cael eu rheoli gan aelod o staff a fyddai'n eu cyflwyno i'r staff adeg eu derbyn, drwy e-bost neu ar lafar.

## Y Gweithlu

Roedd yr uwch-aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod nifer a chymysgedd sgiliau'r staff yn y gwasanaeth yn briodol ar gyfer anghenion y cleifion ac aciwtedd achosion. Roedd y staff o'r farn bod ganddynt ddigon o amser i roi'r gofal roedd ei angen ar gleifion iddynt.

Roedd yr hyfforddiant gorfodol i staff y gwnaethom ei archwilio yn briodol, gan gynnwys hyfforddiant cymorth bywyd sylfaenol, diogelu, atal a rheoli heintiau a silindrau ocsigen. Fodd bynnag, nid oedd cofnod mewn un lleoliad i ddangos pa staff a oedd wedi cwblhau pob elfen unigol o'r hyfforddiant. Byddai'n fuddiol i'r clinig lunio matrices hyfforddiant i ddangos pwy sydd wedi cwblhau pa hyfforddiant a phryd, a phryd y byddai angen diweddarau'r hyfforddiant hwnnw.

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau'r staff a gwelsom fod gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cynnal, a bod gan y staff gontract a disgrifiad swydd. Gwelsom fod trefniadau ar waith i gynnal arfarniadau yn ystod y mis yn dilyn yr arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnal unwaith y flwyddyn. Roedd gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi'i gwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff. Dywedwyd wrthym fod y clinig yn ystyried cofrestru ar gyfer cynllun ardystio blynyddol â'r DBS, fel rhan o wasanaeth atgyfeirio'r DBS.

Dyweddod y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus iawn yn gweithio yn y clinig fel rhan o'r tîm a bod pawb yn dda iawn, yn broffesiynol, yn barod i helpu ac yn gyfeillgar.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

# Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Darcy Healthcare

Dyddiad yr arolygiad: 5 Rhagfyr 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Nid oedd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Darcy Healthcare

Dyddiad yr arolygiad: 5 Rhagfyr 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Roedd angen arwyddion ychwanegol o ran sut y gall cleifion ofalu am eu hiechyd cyffredinol eu hunain, gan gynnwys colli pwysau a chynnal ffordd iach o fyw.	<p>Rhaid i'r clinig sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bod gwybodaeth hybu iechyd ychwanegol wedi'i harddangos yn y clinig gan gynnwys gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw a rheoli pwysau</li> </ul>	<p>Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Diogelu a gwella iechyd</p> <p>Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliad 28</p>	<p>Byddwn yn arddangos poster am bwysigrwydd rheoli pwysau, bwyta'n iach ac ymarfer corff. Bydd y poster yn dangos dolenni i raglenni rheoli pwysau yn yr ardal leol, gan gynnwys tudalen cymorth a chyngor Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar gyfer cynnal pwysau iach. Mae tystysgrif AGIC ar gyfer cyfleuster MRI Darcy Healthcare wedi'i harddangos yn uned lles y cyfleuster MRI ar uned ar y</p>	<p>Martin Hart (tîm dylunio)</p> <p>Martin Hart</p>	<p>I'w roi ar waith erbyn 03.03.2025</p>



	Yn ogystal, nid oedd y tystysgrifau a oedd yn dangos bod y clinig wedi'i gofrestru ag AGIC wedi'u harddangos fel sy'n ofynnol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bod y tystysgrifau cofrestru a ddarperir gan AGIC i'w gweld yn amlwg yn y clinig.</li> </ul>		wal. Prynwyd uned debyg i'w rhoi ar y wal a chaiff tystysgrifau cofrestru AGIC ar gyfer y cyfleuster uwchsain eu harddangos yn ardal aros y clinig uwchsain.		I'w roi ar waith erbyn 17.02.2025
2.	Nid oedd unrhyw aelod o staff yn siarad Cymraeg yn y clinig ac nid oedd fawr ddim arwyddion Cymraeg.	Dylai'r clinig sicrhau bod yr holl wybodaeth i gleifion ar gael yn hawdd ac yn cael ei darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn. Dylai cleifion gael cynnig y cyfle i siarad yn eu dewis iaith lle bynnag y bo modd.	<p>Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Cyfathrebu'n effeithiol</p> <p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 9 (1) (g)</p>	Yn ystod y broses o drefnu apwyntiad, bydd ein staff gweinyddol yn holi a fyddai'n well gan glaf siarad yn Gymraeg. Caiff hyn ei ddogfennu ar SharePoint yng nghofnod y claf. Os bydd y claf yn nodi y byddai'n well ganddo sgwrsio yn Gymraeg, bydd siaradwr Cymraeg o'r tîm yn cysylltu â'r claf i gwblhau'r broses o drefnu apwyntiad. Mae dau aelod o'r tîm yn gallu siarad Cymraeg ac mae un aelod arall yn gallu cyfarch cleifion a defnyddio	Wyn Evans	Bydd y staff trefnu apwyntiadau yn cadarnhau ac yn cofnodi dewisiadau o 10.02.2025.

			<p>y madroddion byr yn Gymraeg.</p> <p>Mae Parc Llandarcy yn rhan o Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot. Mae'r Coleg yn gwbl ddwyieithog a gall ddarparu cymorth cyfieithu i Darcy Healthcare. Os bydd y claf yn nodi y byddai'n well ganddo gael gohebiaeth a gwybodaeth yn Gymraeg, ar hyn o bryd gallwn ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu'r Coleg. Rydym hefyd yn ystyried opsiynau eraill fel Helo Blod, sef gwasanaeth cyfieithu a Chyngor Busnes Cymru Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn cyflwyno cyfarchiad ffôn Cymraeg ar gyfer Darcy Healthcare. Mae'r ddarpariaeth hon eisoes yn bodoli yn Academi Llandarcy a chaiff ei hymestyn i linellau ffôn Darcy Healthcare.</p>		
--	--	--	--	--	--

3.	<p>Nid oedd gwybodaeth wedi'i harddangos yn y clinig yn nodi sut y gallai cleifion gwyno, ond roedd cod ymateb cyflym (QR) i gleifion roi adborth. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ganlyniadau ar gael o'r adborth hwn.</p>	<p>Rhaid i'r clinig sicrhau bod gwybodaeth 'dywedo chi, gwnaethom ni' i'w gweld yn y clinig er mwyn cyflwyno canlyniadau unrhyw adborth a'r camau gweithredu a gymerwyd gan y clinig i'r cleifion.</p>	<p>Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Ymgysylltu â dinasyddion a cheisio adborth</p> <p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 24</p>	<p>Mae'r tîm dylunio wrthi'n gweithio ar boster a fydd yn disgrifio ein proses gwyno a sut i wneud cwyn. Bydd y poster hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut i roi adborth a'n cod QR i'r ffurflen adborth. Mae'r tîm dylunio wrthi'n gweithio ar y bwrdd dywedo chi, gwnaethom ni.</p>		<p>I'w roi ar waith erbyn 03.03.2025.</p> <p>Byddwn hefyd yn arddangos bwrdd cwrdd â'r tîm erbyn 01.04.2025.</p>
4.	<p>Roedd y cofnodion ar gyfer y peryglon amgylcheddol, yr asesiadau risg ar gyfer y cyfleusterau, yr asesiadau rheoli risg a'r cyfleusterau cyffredinol yn cael eu rheoli gan dîm rheoli'r academi, a oedd yn lesio'r ystafelloedd trin i'r clinig. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd modd i'r clinig weld y cofnodion hyn, ac nid oedd ganddo fynediad uniongyrchol</p>	<p>Rhaid i'r clinig sicrhau y gall gael gafael ar yr asesiadau risg, yr asesiadau peryglon amgylcheddol, a'r polisiau a'r gweithdrefnau perthnasol, gan gynnwys cofnodion ar gyfer gwiriadau tân, a gedwir gan yr academi.</p>	<p>Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Rheoli risg ac iechyd a diogelwch</p> <p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 26</p>	<p>Mae holl ddogfennau, polisiau a gweithdrefnau perthnasol yr Academi bellach wedi'u cadw o fewn ffolder a rennir ar gyfleuster SharePoint Gwasanaethau Meddygol Siarad, gan ddarparu tryloywder a mynediad hawdd i'r dogfennau gofynnol.</p>	Wyn Evans	<p>Mae hyn eisoes wedi cael ei roi ar waith.</p>

	<p>iddynt, er i ni gael gwybod y gallai ofyn amdanynt. Yn yr un modd, nid oedd y clinig wedi edrych ar bolisiau a phrosesau'r academi fel gwiriadau tân. Fodd bynnag, roedd y wybodaeth hon ar gael pe byddai'r clinig yn gofyn yn benodol amdani.</p>				
5.	<p>Roedd y cyfarpar adfywio wedi cael ei wirio unwaith y mis ac roedd tystiolaeth o hyn i'w gweld. Yn ôl canllawiau Cyngor Adfywio'r DU, dylid cynnal y gwiriadau hyn unwaith yr wythnos.</p>	<p>Rhaid i'r clinig sicrhau bod y cyfarpar adfywio, gan gynnwys y cyffuriau, yn cael eu gwirio unwaith yr wythnos.</p>	<p>Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Rheoli risg ac iechyd a diogelwch</p> <p>Canllawiau Cyngor Adfywio'r DU</p>	<p>Mae hyn eisoes wedi cael ei roi ar waith.</p>	<p>Manu John</p> <p>Mae hyn eisoes wedi cael ei roi ar waith.</p>
6.	<p>Yr academi oedd yn gyfrifol am drefnu gwaith glanhau, ond nid oedd unrhyw</p>	<p>Rhaid i'r clinig ymgymryd â'r canlynol er mwyn sicrhau bod</p>	<p>Safonau Gofynnol Cenedlaethol -</p>	<p>Mae Parc Llandarcy wedi cytuno i ddarparu copi o'r archwiliad glanhau misol i</p>	<p>Wyn Evans</p> <p>I'w roi ar waith erbyn 03.03.2025</p>

<p>gofnodion yn y clinig nac yn yr academi i ddangos bod gwaith glanhau yn cael ei gynnal, er bod pob ardal yn ymddangos yn lân. Gwelsom fod archwiliad misol yn cael ei gynnal gan y cwmni glanhau a'i fod yn ei anfon i'r academi. Dylai'r academi anfon copi o'r archwiliad hwnnw i'r clinig ar ôl ei dderbyn.</p> <p>Roedd staff y clinig yn glanhau'r cyfarpar a'r chwiliedyddion, ond oni bai bod triniaeth fewnwithiol yn cael ei chynnal, nid oedd cofnod yn cael ei gadw o'r gwaith i lanhau'r chwiliedydd a'r cyfarpar.</p> <p>Roedd system weips Tristel Trio yn cynnig system ddihalogi teiran ar gyfer dyfeisiau meddygol. Roedd yn cynnwys tri weip sydd,</p>	<p>trefniadau atal a rheoli heintiau effeithiol ar waith yn y clinig:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau y caiff copi o'r archwiliad misol o'r gwaith glanhau a wneir ei roi i'r clinig</li> <li>Cadw cofnod o'r prosesau ar gyfer glanhau'r chwiliedydd a'r trefniadau cyffredinol ar gyfer glanhau cyfarpar yn y clinig</li> <li>Sicrhau bod stoc o weips Tristel Trio ar gael bob amser</li> </ul>	<p>Atal a rheoli heintiau a dihalogi</p> <p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 9(n), 13 (3), 15 (7) (b), 15 (8)</p>	<p>Wasanaethau Meddygol Siarad. Bydd Parc Llandarcy hefyd yn arddangos amserlenni glanhau ar y waliau yn yr ardal glinigol yn ogystal ag yn y toiledau er mwyn i'r unigolyn sy'n ymgymryd â'r gwaith glanhau eu dyddio a nodi blaenlythrennau ei enw bob dydd. Caiff cofnodion glanhau eu cadw ar ffurf electronig ar SharePoint.</p> <p>Caiff cofnod o'r prosesau ar gyfer glanhau'r chwiliedydd a'r cyfarpar cyffredinol ei gadw</p> <p>Caiff cyflenwad o weips Tristel Trio ar gyfer 50 claf, gan gynnwys y cofnodlyfr i gofnodi'r holl wybodaeth berthnasol, ei brynu. O ganlyniad, bydd cyflenwad o</p>	<p>Balan Palaniappan</p> <p>Balan Palaniappan</p>	<p>I'w roi ar waith erbyn 17.02.2025</p> <p>I'w brynu erbyn 17.02.2025</p>
---	---	--	--	---	--

<p>yn eu tro, yn cyflawni camau'r weithdrefn ddihalogi. Fodd bynnag, ni welwyd unrhyw ddeunyddiau glanhau Tristel Trio ar y safle, er i ni gael gwybod bod y deunyddiau hyn ar gael. Gallai hyn olygu y byddai sgan yn cael ei drefnu ond na fyddai modd dihalogi'r chwiliedydd yn briodol.</p>			<p>weips Tristel Trio ar gael ar y safle a gellir cwblhau'r ddogfennaeth briodol.</p>	<p>Balan Palaniappan</p>	<p>17.02.2025</p>
<p>Roedd y clinig yn sganio labeli'r system Tristel Trio i mewn i ddogfen pdf ac yn atodi'r ddogfen hon i gofnod RIS y claf. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cynnig cofnod penodol o ddyddiad ac amser y driniaeth, enw a manylion y claf, enw'r gweithredwr, rhif trosrwr a ddefnyddiwyd, pwy wnaeth y gwaith glanhau a dihalogi.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau y caiff y defnydd o weips Tristel Trio ei gofnodi'n gywir, gan gynnwys dyddiad ac amser y driniaeth, enw a manylion y claf, enw'r gweithredwr, rhif cyfresol y trosrwr a ddefnyddiwyd, pwy wnaeth y gwaith glanhau a dihalogi</li> </ul>		<p>Caiff y cam gweithredu hwn ei gwblhau gan ddefnyddio cofnodlyfr Tristel Trio sy'n cofnodi'r holl fanylion angenrheidiol ar gyfer cofnodion yn y dyfodol.</p>	<p>Suresh Dalavaye</p>	<p>Mae'r newid hwn wedi cael ei roi ar waith.</p>
			<p>Rydym bellach wedi symud i ddefnyddio pecynnau gel</p>		

<p>Roedd dyddiad darfod y gwneuthurwr wedi'i nodi ar y poteli o gel di-haint ac nid oedd modd eu hail-lenwi. Fodd bynnag, nid oeddent yn dilyn y canllawiau diweddaraf a oedd yn nodi y dylid gosod label yn dangos dyddiad defnyddio neu ddyddiad agor y botel am y tro cyntaf ar y botel unigol ac y dylid cael gwared arni os oedd yn cael ei defnyddio o hyd ar ôl cyfnod o fis.</p> <p>Roedd dau fin offer miniog ar agor ac yn cael eu defnyddio yn yr ystafell sganio. Roedd un o leiaf ddau draean yn llawn, ond nid oedd unrhyw fanylion wedi cael eu llenwi ar y naill fin offer miniog na'r llall, er enghraifft dyddiad defnyddio'r bin am y tro cyntaf neu fanylion pwy agorodd y bin offer miniog.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod y poteli gel a ddefnyddir ar gyfer y gorchuddion chwiliedyddion di-haint ac ar gyfer pigladau steroid a sganiau yn dilyn y canllawiau diweddaraf</li> <li>Sicrhau y caiff y wybodaeth ar y biniau offer miniog ei chwblhau pan fydd y bin offer miniog yn dechrau cael ei ddefnyddio</li> </ul>		<p>uwchsain untro tafladwy er mwyn lleihau'r risg o haint. Nid ydym yn defnyddio poteli gel uwchsain mwyach.</p> <p>Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau</p> <p>Bydd y staff gweinyddol yn cynnal y gwiriad hwn wrth drefnu apwyntiad y claf</p>	<p>Suresh Dalavaye</p> <p>Jade Kermani</p> <p>Balan Palaniappan</p>	<p>Wedi'i roi ar waith</p> <p>I'w roi ar waith erbyn 10.02.2025</p>
--	--	--	---	---	---

	<p>Dywedwyd wrthym nad yw'r staff yn holi ynghylch statws heintus unrhyw gleifion ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd ystafell ar gael pe byddai angen ynysu claf.</p> <p>Wrth siarad â'r rheolwr cofrestredig a'r cynorthwydd gofal iechyd, daeth yn amlwg nad oeddent yn gwybod pwy oedd yn gyfrifol am waredu'r gwastraff clinigol na'r biniau offer miniog.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau y caiff cleifion eu holi ynghylch unrhyw glefydau heintus, yn ddefnyddiol pan fyddant yn trefnu apwyntiad, ond hefyd pan fyddant yn cyrraedd y clinig</li> <li>Sicrhau bod y staff yn ymwybodol o bwy sy'n gyfrifol am waredu gwastraff clinigol a biniau offer miniog.</li> </ul>		<p>Mae'r bagiau gwastraff clinigol a'r biniau offer miniog yn cael eu casglu o'r cyfleuster uwchsain a'r cyfleuster MRI unwaith y mis. Os bydd y bagiau gwastraff yn llawn cyn y dyddiad casglu, bydd y staff helpu yn symud y bagiau i gynhwysydd gwastraff clinigol y gellir ei gloi yn y cyfleuster MRI. Caiff y blychau offer miniog eu casglu o'r cyfleuster uwchsain gan y cwmni gwaredu gwastraff. Mae pob aelod o'r staff wedi cael gwybod am y trefniadau.</p>		<p>Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau</p>
7.	<p>Nid oedd tymheredd amgylchol yr ystafell yn cael ei gofnodi er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau yn addas at y diben ar yr adeg y</p>	<p>Rhaid i'r clinig sicrhau bod tymhereddau amgylchol yr ystafelloedd lle caiff meddyginiaethau eu</p>	<p>National Minimum Standards - Medicines management</p>	<p>Prynwyd mesuryddion mesur tymheredd a lleithder. Caiff y dyfeisiau eu gosod yn yr ystafell glinigol lle caiff y meddyginiaethau eu storio. Bydd staff Academi</p>	<p>Wyn Evans</p>	<p>I'w roi ar waith erbyn 17.02.2025</p>



	byddent yn cael eu rhoi i gleifion.	cadw yn cael eu gwirio a'u cofnodi bob dydd.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 15 (5)	Llandarcy yn gwirio'r tymheredd bob dydd ac yn ei gofnodi ar daflen a fydd wedi'i gosod ar y wal. Caiff cofnodion cronol eu storio ar ffurf electronig ar SharePoint.		
8.	Nid oedd staff ar y safle yn cynnal unrhyw brosesau sicrhau ansawdd cyffredinol rhwng yr ymweliadau gwasanaethu. Nid oedd hyd yn oed arolygiadau gweledol o'r chwiliedyddion a'r ceblau wedi'u cofnodi. Roedd profion sicrhau ansawdd ar gael yn hawdd ar wefan Cymdeithas Uwchsaïn Meddygol Prydain (BMUS).	Rhaid i'r clinig sicrhau y caiff y camau gweithredu canlynol eu cymryd: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff profion sicrhau ansawdd rheolaidd eu cynnal o'r cyfarpar a chaiff y profion hyn eu dogfennu</li> </ul>	Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol  Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 9 (1) (d), 15	Mae Gweithgor Sicrhau Ansawdd BMUS wedi cyhoeddi canllawiau BMUS er mwyn i sonograffwyr gynnal profion sicrhau ansawdd rheolaidd o sganwyr uwchsaïn. Mae'r ddogfen yn disgrifio lefelau sicrhau ansawdd ar gyfer peiriannau uwchsaïn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lefel 1. Rheoli heintiau a difrod i'r sganiwr</li> <li>• Lefel 2. Profion sylfaenol o'r sganiwr a'r trosr</li> </ul> Rydym yn cynnal profion sicrhau ansawdd lefel 1 a	Balan Palaniappan	I'w roi ar waith erbyn 17.02.2025

	<p>Roedd adroddiad cynnal a chadw ataliol cyffredinol gan beiriannydd wedi'i weld, ond ni chwblhawyd ffurflen drosglwyddo rhwng y clinig a'r peiriannydd.</p> <p>Er na fu unrhyw ddiffygion neu fethiannau ers prynu'r cyfarpar, nid oedd cofnod diffygion ar waith eto i gofnodi digwyddiadau o'r fath pe byddent yn codi.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff y trefniadau ar gyfer trosglwyddo cyfarpar rhwng y clinig a pheiriannydd yn ystod gwaith cynnal a chadw neu atgyweirio eu dogfennu</li> <li>• Caiff cofnod diffygion ei lunio i nodi'r diffygion a'r camau gweithredu a gymerwyd i ddatrys y mater yn ogystal ag enwau a dyddiadau.</li> </ul>		<p>lefel 2 bob wythnos, wedi'u haddasu o'r cyhoeddiad hwn. Caiff cofnodion cronol eu storio ar ffurf electronig ar SharePoint.</p> <p>Mae dogfen trosglwyddo cyfarpar bellach ar waith.</p> <p>Mae'r cofnod diffygion bellach yn rhan o'r daenlen sicrhau ansawdd</p>		<p>Mae dogfen trosglwyddo cyfarpar a thaflen cofnodi diffygion bellach ar waith.</p>
9.	<p>Nid oedd y cynnig o hebryngwr wedi cael ei gofnodi yn y cofnodion a welsom.</p>	<p>Rhaid i'r clinig sicrhau'r canlynol:</p>	<p>Safonau Gofynnol</p>	<p>Rydym bellach yn defnyddio templed ar gyfer</p>	<p>Balan Palaniappan</p>	

<p>Ar gyfer pigiadau, byddai'r radiologydd yn gofyn ar lafar i'r cleifion a oedd ganddynt unrhyw alergeddau, ond ni fyddai'r wybodaeth yn cael ei chofnodi yn yr adroddiad.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod gwybodaeth am y cynnig o hebryngwr, a roddwyd cydsyniad</li> <li>• ac unrhyw alergeddau yn cael ei chofnodi ym mhob achos.</li> </ul>	<p>Cenedlaethol - Rheoli cofnodion</p>	<p>adroddiadau uwchsain sy'n cynnwys cofnod o'r cynnig o hebryngwr ac yn nodi a oedd hebryngwr yn bresennol yn ystod y sgan neu'r driniaeth. Bydd rhestr wirio Sefydliad lechyd y Byd, dogfen gydsyniad a dogfen bresgripsiwn yn cael eu cwblhau ar gyfer pob pigiad uwchsain cyfeiriedig (gan gynnwys gwybodaeth am alergeddau). Caiff copiâu electronig o'r tair dogfen eu storio ar RIS fel rhan o gofnod ymweliad sgan uwchsain y claf.</p>		<p>I'w roi ar waith erbyn 17.02.2025</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Balan Palaniappan

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 06.02.2025